Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

08/03/2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trwyddedu yn Hybrid, Dydd Iau, 16 Mawrth 2023 am 9.30 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 a 2023/24**

4. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 3 - 4)**

5. **Diweddariad Cyffredinol (Tudalennau 5 - 14)**

6. **Adroddiad am Gyfraith Martyn - Y Ddyletswydd Diogelu (Tudalennau 15 - 18)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trwyddedu
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 06 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Euros Davies (Cadeirydd); y Cynghorwyr Elaine Evans, Eryl Evans, Keith Evans, Paul Hinge, Gwyn James a John Roberts

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am-10:20am)

1 Cyflwyniad
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Steve Davies, Endaf Edwards a Caryl Roberts am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Amanda Edwards am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu
Datgelodd y Cynghorydd Euros Davies fuddiant personol yng nghyswllt yr Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro.

3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Paul Hinge wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Materion yn codi
6(iii) Cadarnhawyd bod llythyr wedi'i anfon at y Comisiwn Gamblo. Adroddwyd bod y Comisiwn wedi ymateb drwy ddweud wrth y Swyddogion y dylai'r sylwadau hyn gael eu cyflwyno pan fyddai'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn cynnal yr ymgynghoriad nesaf.

4 Diweddariad Cyffredinol
Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Diweddariad Cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn diweddaru'r Aelodau am faterion perthnasol a oedd yn ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad canlynol ynglŷn â materion a oedd yn gysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2003:-

- Eisteddfod Tregaron 2022
- Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)
- Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro

O ran materion a oedd yn gysylltiedig â Deddf Gamblo 2005, rhoddwyd y diweddariad canlynol:-

- Papur Gwyn – Adolygu'r Ddeddf Gamblo

CYTUNWYD ynghylch y canlynol:
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;
(ii) y byddai'r sylwadau / pryderon a godwyd gan yr Aelodau ynghylch y problemau a gafodd ymwelwyr anabl / rhieni ar faes yr Eisteddfod yn cael eu trosglwyddo i Swyddogion yr Eisteddfod fel y gallent roi sylw iddynt cyn yr Eisteddfod nesaf ; a
(iii) nodi y byddai'r manylion am yr ymgynghoriad nesaf ynghylch y Ddeddf Gamblo yn cael ei rhannu, yn unol â'r drefn arferol, drwy dudalen Facebook y Cyngor a thrwy swyddfa'r wasg.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Statudol)

Dyddiad y cyfarfod: 16 Mawrth 2023

Teitl: Diweddariad Cyffredinol

Pwrpas yr adroddiad: Er gwybodaeth

Cefndir

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal i adolygu a thrafod y gwaith o weithredu Deddf Trwyddedu 2003 a'r cynnydd a wneir o ran y ddeddf, ynghyd ag unrhyw faterion cysylltiedig sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor penodol hwn. Mae'r materion hyn yn cynnwys Deddf Gamblo 2005.

Materion sy'n gysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2003

Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)

Ers y Pwyllgor Trwyddedu diwethaf, mae'r Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ymgynnull ar gyfer tri gwrandawiad - **gweler Atodiad A.**

Licensing SAVI (y Fenter Trwyddedu Diogelwch a Bregusrwydd)

Cyflwyniad gan Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu

Sefydliad dielw yw *Licensing SAVI* a'r Heddlu sy'n gyfrifol amdano. Cafodd y fenter ei datblygu yn dilyn cais gan y Swyddfa Gartref. Mae *Licensing SAVI* wedi datblygu offeryn hunanasesu gyda'r bwriad o helpu perchnogion a gweithredwyr safleoedd trwyddedig i ddarparu amgylchedd saff a diogel i'w rheolwyr, eu staff, eu cwsmeriaid a'u cymunedau lleol. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu cyngor ac argymhellion personol a fydd yn cynorthwyo busnesau wrth iddynt gydweithio â'r Awdurdodau Cyfrifol a chydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003, gan hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

- Atal Troseddau ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Atal Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Ni fydd cost ariannol i'r Awdurdod ac mae'r Gwasanaeth Trwyddedu wedi cytuno i gydweithio â swyddogion trwyddedu Heddlu Dyfed-Powys i gefnogi'r cynllun yn lleol.

Unwaith y bydd busnes yn cofrestru â'r cynllun ac yn rhannu eu model busnes, amseroedd agor, gweithgareddau trwyddedadwy, ac ati, byddant yn derbyn cyngor pwrpasol a bydd eu hasesiad yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'u model busnes penodol.

Ymhlith yr adnoddau a fydd ar gael iddynt y mae'r canlynol:

- Cyngor i safleoedd trwyddedig am ddiogelwch a gwrthderfysgaeth
- Cynllun gweithredu ar gyfer gwneud y safle'n ddiogel i fenywod
- Cyngor i leoliadau a chwsmeriaid am sbeicio
- Polisïau gwirio oedran
- Polisïau ynghylch atal camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Polisïau gwasgaru
- Polisïau cyffuriau
- Canllawiau ynghylch diogelu safleoedd troseddau

Un o'r ffactorau allweddol sy'n gwneud *Licensing SAVI* yn wahanol yw mai Gwasanaeth yr Heddlu drwy Fentrau Atal Troseddau'r Heddlu (PCPI) sydd wedi'i lunio a'i ddatblygu. Mae'r Heddlu yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ledled y Deyrnas Unedig i leihau troseddau ac ofn troseddau. O'r herwydd, mae *Licensing SAVI* mewn sefyllfa unigryw i gynnig ffordd o weithio sy'n gydgysylltiedig ac yn gyson wrth greu safleoedd trwyddedig saff a diogel ar draws Cymru a Lloegr.

Ymhlith y manteisio o ddefnyddio Licensing SAVI y mae'r canlynol:

- Bydd yn rhoi'r cyngor a'r asesiadau risg diweddaraf i fusnesau ynghylch y modd y maent yn gweithredu eu safleoedd gan gynnwys gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy.
- Bydd yn darparu gwybodaeth am arferion rheoli effeithiol a bydd yn cynnig cyngor am ddiogelwch ar lefel weithredol.
- Bydd yn dangos bod y fangre yn cydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003.
- Bydd yn helpu i flaenoriaethu gwelliannau, adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod y safonau uchaf posibl o ran diogelwch yn cael eu cyflawni.
- Bydd yn helpu busnesau i flaenoriaethu gwelliannau, adeiladu ar arferion da a chodi safonau diogelwch ymhellach.
- Bydd busnesau'n gallu gwneud cais am achrediad a dyfarniad *Licensing SAVI* a byddant yn medru eu defnyddio i hyrwyddo diogelwch eu busnesau.

Bydd busnesau llwyddiannus yn gallu arddangos dyfarniad *Licensing SAVI* mewn modd tebyg i'r cynllun sgorio bwyd (5 seren yw'r sgôr uchaf). Bydd yr achrediad yn para 12 mis. Ar ôl hynny, bydd angen ailymgeisio.

Y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182, Deddf Trwyddedu 2003

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi fersiwn ddiweddaraf y Canllawiau Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182, Deddf Trwyddedu 2003. Mae'n diwygio'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2018 ond nid oes newidiadau pellgyrhaeddol wedi'u gwneud. Fel yn achos fersiynau blaenorol y canllawiau, daethant i rym o'r eiliad y cawsant eu cyhoeddi,

ond nid oes effaith ôl-weithredol o'u cyflwyno. Golyga hyn felly fod ceisiadau a wnaed ar 20 Rhagfyr 2022 neu ar ôl hynny yn ddarostyngedig i ganllawiau 2022 ac mae'r rhai a wnaed cyn y dyddiad hwnnw yn parhau i fod yn ddarostyngedig i fersiwn 2018.
Mae Adran 4, Deddf Trwyddedu 2003, yn nodi fod yn rhaid i awdurdod trwyddedu, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 182 o'r canllawiau. I'r perwyl hwn, mae pob Awdurdod Trwyddedu yn gorfod cydymffurfio â'r canllawiau.

Gan mai bach iawn yw'r newidiadau a wneir y tro hwn, dim ond nodi'r mân ddiwygiadau i'r canllawiau y mae angen i'r awdurdodau trwyddedu ei wneud.

Ymhlith y prif newidiadau sydd wedi'u gwneud ers fersiwn Ebrill 2018 y mae'r canlynol:

- Cynnwys newidiadau sylweddol yn y canllawiau diwygiedig o ran yr hawl i weithio a hawliau yn y gwaith.
- Lleihau'r baich ar y sawl sy'n gweithredu gwasanaeth cludo alcohol gan awgrymu "y *gallent* ystyried cysylltu â'u hawdurdod trwyddedu" ("*y dylent"* oedd y geiriau blaenorol) o dan baragraff 3.10
- Ychwanegu adran newydd o dan "Hysbysiadau Cau" ym mharagraff 4.83
- Cynnwys eglurhad nad yw Gwasanaeth Gorfodi Mudo'r Swyddfa Gartref yn gyfrifol am Glybiau (paragraff 6.11)
- Diweddaru'r cyfyngiadau statudol o ran Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro gan gynyddu'r cyfyngiad o 15 i 20 ar gyfer 2022 a 2023.
- Cynnwys eglurhad nad oes yna hawl apelio o ran Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro a gyflwynir yn hwyr yn dilyn gwrthwynebiad gan yr Heddlu neu Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd (paragraff 7.34)
- Cynnwys eglurhad na ddylid defnyddio amrywiadau llawn i "amrywio'n **sylweddol** y fangre y mae'r drwydded yn ymwneud â hi" ym mharagraff 8.76
- Ychwanegu paragraff 10.5 i egluro y dylid troi atodlenni gweithredu yn amodau a bod yn rhaid iddynt fod 'yn briodol ac yn gymesurol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu".
- Cynnwys yr "egwyddor Cyfrwng Newid" yn 14.66
- Dileu "Atodiad A - dogfennau sy'n dangos yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig"

Mae Adran 4, Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod trwyddedu, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, 'roi sylw i' ganllawiau Adran182 ac felly mae'n gorfodi pob awdurdod trwyddedu i gydymffurfio â hyn. Mae canllawiau diwygiedig Adran 182 ar gael drwy fynd at: Revised guidance issued under section 182 of the Licensing Act 2003 (December 2022) (accessible) - GOV.UK (www.gov.uk)

Ymgynghoriad - Ymestyn Oriau Trwyddedu - Coroni'r Brenin Siarl

Mae'r Llywodraeth wedi lansio ymgynghoriad ynghylch a ddylid ymestyn yr oriau trwyddedu ledled Cymru a Lloegr i nodi achlysur coroni Ei Fawrhydi'r Brenin ar 6 Mai 2023. Mae'n cynnig creu gorchymyn oriau trwyddedu o dan adran 172, Deddf

Trwyddedu 2003, a fyddai'n ymestyn yr oriau agor o 11pm i 1am ddydd Gwener 5 Mai, dydd Sadwrn 6 Mai a dydd Sul 7 Mai, fel y gellir gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle a darparu adloniant a reoleiddir mewn safleoedd trwyddedig yng Nghymru a Lloegr.

Byddai'r estyniad arfaethedig yn ymwneud â gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle yn unig a darparu lluniaeth gyda'r hwyr ar safleoedd mewnfasnach trwyddedig.

Mae'r llywodraeth o'r farn na ddylai unrhyw fwriad i ymestyn yr oriau trwyddedu yn genedlaethol gynnwys unrhyw fannau lle gwerthir alcohol i'w yfed oddi ar y safle (h.y. archfarchnadoedd a siopau trwyddedig).

Diben unrhyw drefniadau cenedlaethol i ymestyn oriau trwyddedu i nodi coroni Ei Fawrhydi'r Brenin fyddai galluogi tafarndai a safleoedd mewnfasnach trwyddedig eraill i werthu alcohol a lluniaeth gyda'r hwyr i'r rhai sy'n dymuno dathlu achlysur Coroni Ei Fawrhydi'r Brenin y tu hwnt i'w horiau trwyddedu arferol dros gyfnod estynedig gŵyl y banc.

Perfformiad Blynyddol y Tîm Trwyddedu - Adroddiad Cyffredinol

Yn ystod y cyfnod rhwng 01/02/2022 a 31/01/2023, mae'r Tîm Trwyddedu wedi parhau i dderbyn a phrosesu nifer fawr o geisiadau trwyddedu, ceisiadau i adnewyddu, ceisiadau i drosglwyddo a newidiadau i drwyddedau. Gwnaeth y tîm hefyd dderbyn ceisiadau gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gofyn am gyngor ac arweiniad. Hefyd, cafwyd cwynion oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd angen ymchwiliio ymhellach iddynt. Roedd y rhain yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion trwyddedu sy'n dod o fewn yr hyn y mae'r tîm yn gyfrifol amdano.

Yn ogystal, mae'r tîm yn derbyn ac yn prosesu llawer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae angen amser i gasglu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer y rhain fel y gallwn ni ddarparu ymateb o fewn y terfynau amser cyfreithiol. Mae crynodeb o nifer y ceisiadau trwyddedu sy'n ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 a'r ymholiadau a gofnodwyd gennym wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol.

Mathau o drwyddedau a roddwyd: Deddf Trwyddedu 2003	**Nifer**
Ceisiadau newydd am Drwydded Mangre	23
Adnewyddu Trwydded Mangre	355
Amrywio Trwydded Mangre yn Llawn	3
Mân Amrywiadau	2
Trosglwyddo Trwydded Mangre	2
Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro	277
Trwyddedau Personol (newydd)	51
Newid manylion ar Drwyddedau Personol	18
Adolygiadau	0
Amrywio Goruchwylydd Safle Dynodedig	22
	753

Mathau o drwyddedau a roddwyd: Deddf Gamblo 2005	**Nifer**
Safleoedd Gamblo newydd	2
Adnewyddiadau o dan y Ddeddf Gamblo	14
Hysbysiadau Defnydd Achlysurol	7
Loterïau Cofrestredig	78
Eithriad sy'n gysylltiedig â'r Doll Peiriannau Hapchwarae (yr eithriad 2 chwaraewr neu fwy)	3
	104

Gallwch weld gwybodaeth am y mathau eraill o drwyddedau y mae'r tîm wedi'u derbyn a'u prosesu yn ystod y misoedd diwethaf e.e. tacsis, trwyddedu anifeiliaid ac ati, yn yr adroddiad sydd wedi mynd gerbron y Pwyllgor Trwyddedu Anstatudol.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Rheswm dros yr argymhelliad: Er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau Etholedig am y gwaith y mae'r Adain Drwyddedu wedi'i wneud ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a chyflwyno gwybodaeth berthnasol arall.

Fframwaith Polisi: Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu yn elfen hanfodol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.

Amcanion Corfforaethol: Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth

Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael: O fewn y gyllideb

Maes Gwasanaeth: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Pwerau Statudol: Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw Reoliadau a wneir o dan y Deddfau hyn.

Papurau Cefndir: Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)

Swyddogion Adrodd: Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) & Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu)

Dyddiad: 22 Chwefror 2023

Atodiad A - Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)

Atodiad A - Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)

Mangre: Gingero's Coastal Coffee, Glan Dolau, Stryd yr Eglwys, Ceinewydd, SA45 9NZ	**Dyddiad yr adolygiad: 18/11/2022**
Rheswm dros yr adolygiad: Trwydded Mangre newydd Derbyniodd yr Awdurdod gais am drwydded mangre newydd ar 15 Awst 2022. Roedd y cais yn gofyn am awdurdodi'r gweithgareddau canlynol: • Gwerthu a chyflenwi alcohol - oddi ar y safle - 10:00 – 20:00 bob dydd • Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio 08:00 – 20:00	
Ymgynghoriad: Ar 22 Awst 2022, cyflwynodd unigolyn wrthwynebiad i'r cais. Gwrthodwyd hyn gan yr Awdurdod am nad oedd yn berthnasol i'r 4 amcan trwyddedu. Ar 12 Medi, cyflwynodd y sawl a oedd yn gwrthwynebu wrthwynebiad diwygiedig ar sail niwsans cyhoeddus a nododd hefyd fod anghysondeb rhwng yr oriau a hysbysebwyd ar Hysbysiad Cyhoeddus Ceredigion a'r Hysbysiad a gyflwynwyd i'r papur newydd. Gwnaeth yr ymgeisydd gyflwyno cais diwygiedig gan hepgor y gofyniad am chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio. Cafodd dyddiad cau'r ymgynghoriad ei ymestyn am na chydymffurfiwyd â'r gofyniad statudol i hysbysebu'r cais. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd hanner nos, 21 Hydref. Ar ôl ail-gyhoeddi'r cais, cyflwynodd y gwrthwynebydd wrthwynebiad diwygiedig ar 21 Hydref, gan ofyn am gynnwys y pwyntiau a godwyd yn y gwrthwynebiad blaenorol.	
Cyfryngu: Gwnaed sawl ymgais i gyfryngu rhwng y ddwy ochr ond aflwyddiannus fu'r ymdrechion. Gofynnodd yr Awdurdod i'r gwrthwynebydd a oedd unrhyw fesurau y gallai ofyn i'r ymgeisydd eu hystyried a fyddai'n lliniaru'r pryderon a oedd wedi eu codi. Ni chyflwynwyd yr un mesur. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan yr awdurdodau cyfrifol.	
Penderfyniad / Canlyniad yr Adolygiad: Ystyriodd yr is-bwyllgor trwyddedu y cais ar 18 Tachwedd 2022. Roedd yr ymgeisydd a'r sawl a gyflwynodd sylwadau yn bresennol.	

Ar ôl ystyried y cais, cytunodd y Panel yn unfrydol na fyddai caniatáu'r drwydded yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu ac yn benodol na fyddai'n achosi niwsans cyhoeddus nac yn cyfrannu ato. O'r herwydd, caniatawyd y cais fel y'i cyflwynwyd, heb ddim amodau.

Safle: The Albion Aberteifi, Teifi Wharf, Bridge Warehouse, Aberteifi SA43 3AA	**Dyddiad yr adolygiad: 7/10/2022**
Rheswm dros yr adolygiad: Trwydded Mangre newydd Derbyniodd yr Awdurdod y cais am drwydded mangre ar 15 Awst 2022. Dyma'r gweithgareddau trwyddedadwy y gwnaed cais amdanynt: **Lluniaeth gyda'r hwyr** Llun- Sul 23:00 - 01:00 **Cyflenwi Alcohol** Llun - Sadwrn 08:00 - 00:00 a Sul 10:00 - 00:00 **Ffilmiau** Llun- Sul 10:00 - 00:00 **Adloniant wedi'i reoleiddio** Llun- Sul 10:00 - 23:00 Roedd yr ymgeisydd yn dymuno sicrhau bod alcohol ar gael, rhwng yr oriau a nodir, ar gyfer y gwesteion a oedd yn aros yno yn unig, fel y gallent ei yfed ar y safle. Hefyd, roedd am gael yr opsiwn i agor yr ardal drwyddedig dan do yn hwyrach ar Nos Galan ac ar wyliau cenedlaethol / gwyliau banc eraill, adeg digwyddiadau cymunedol neu ddiwylliannol lleol megis Lleisiau Eraill, yr Ŵyl Afon a Bwyd a digwyddiadau tebyg, ac ar gyfer dathliadau arbennig bob hyn a hyn ar gyfer y gwesteion a oedd yn aros yno (e.e. ar gyfer cleientiaid corfforaethol neu deuluoedd sy'n llogi'r gwesty cyfan) gydag archebion olaf am 02:00 a chaniatâd i yfed hyd at 03:00.	
Ymgynghoriad: Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd hanner nos, 12 Medi 2022. Yn ystod y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod, cafwyd un gwrthwynebiad.	
Cyfryngu: Gwnaeth yr ymgeiswyr gynnig sawl ffordd o fynd i'r afael â'r pryderon ond aflwyddiannus oedd yr ymdrechion i gyfryngu. Roedd yr holl sylwadau yn parhau ac ni thynnwyd yr un ohonynt yn ôl cyn y gwrandawiad.	

Penderfyniad / Canlyniad yr Adolygiad: Bu i'r Is-bwyllgor Trwyddedu glywed y cais ar 7 Hydref 2022 a'i ystyried.
Nododd y Panel gynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd o fewn y bwndel a'r dogfennau atodol gwreiddiol ynghyd â chynnwys y sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd a'r unig wrthwynebydd (nad oedd wedi dod i'r gwrandawiad).
Ar ôl ystyried y cais, caniataodd y Panel y cais yn amodol ar y canlynol:-

- nad yw'r ardal y tu allan yn cael ei ddefnyddio wedi hanner nos ar unrhyw noson o'r flwyddyn. Rhaid gofyn i bobl sy'n yfed yn yr ardal tu allan i fynd i mewn am hanner nos.
- ar yr achlysuron y byddan nhw'n cadw'r bar ar agor tan 3am, gan weini alcohol tan 2am, rhaid iddyn nhw hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw. Mae'n bosib wedyn y bydd yr awdurdod yn cysylltu â'r heddlu os bydd yn credu bod angen rhoi gwybod iddynt am y digwyddiad.

Safle: Jitterbugs, Glan Dolau, Ceinewydd, Ceredigion	**Dyddiad yr adolygiad: 28/10/2022**

Rheswm dros yr adolygiad:
Derbyniodd yr Awdurdod y cais ar 9 Awst 2022.
Dyma'r gweithgareddau trwyddedadwy y gwnaed cais amdanynt:
Gwerthu alcohol bob dydd rhwng 10:00 a 24:00 - Byddai'r safle'n parhau ar agor 30 munud ychwanegol bob dydd fel y gall y cwsmeriaid adael yn ddiogel. Byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai pawb yn gadael ar yr un pryd. Byddai'r holl weithgareddau'n dod i ben 30 munud cyn diwedd oriau agor y safle.

Chwarae cerddoriaeth fyw y tu allan 12:00 - 20:00
Chwarae cerddoriaeth fyw y tu fewn 12:00 - 23:00
Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio y tu allan 12:00 - 2200
Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio y tu fewn 08:00 - 00:00
Hefyd, AMSEROEDD ANSAFONOL

Ymgynghoriad: Daeth y cyfnod ymgynghori i ben am hanner nos ar 6 Hydref 2022. Erbyn hynny, roedd dau wrthwynebiad wedi dod i law oddi wrth aelodau'r cyhoedd.

Cyfryngu: Anfonwyd copïau o'r gwrthwynebiadau ymlaen at yr ymgeisydd fel y gallai eu hystyried. Mewn ymateb, cynigiodd yr ymgeiswyr dynnu'r bwriad i gael cerddoriaeth fyw yn yr awyr agored yn ôl a gwnaeth gyflwyno polisi rheoli sain, rhestr o fanylion y staff gan gynnwys eu cymwysterau a'u phrofiad, a'r polisi ar gyfer rheoli'r fangre. Anfonwyd y rhain ymlaen at y gwrthwynebwyr ond ni wnaethant dynnu'r gwrthwynebiad yn ôl.

Penderfyniad / Canlyniad yr Adolygiad: Bu i'r Is-bwyllgor Trwyddedu glywed y cais ar 28 Hydref 2022 a'i ystyried. Gwnaeth y Panel Trwyddedu ystyried y cais yn ôl ei rinweddau gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael iddo o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd y Panel gynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd o fewn y bwndel a'r dogfennau atodol gwreiddiol ynghyd â chynnwys y sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd a'r ddau wrthwynebydd.

Penderfynwyd caniatáu'r cais yn amodol ar y canlynol:

- y byddai gweini alcohol a chwarae unrhyw gerddoriaeth yn dod i ben am 11pm bob noson o'r flwyddyn, ac ni fyddai awr ychwanegol yn cael ei ganiatáu ar wyliau banc na Noswyl Nadolig gan y byddai hynny'n mynd yn groes i'r caniatâd cynllunio.
- pe byddent yn gallu gwneud cais am ddileu'r cyfyngiad yn y caniatâd cynllunio neu ei amrywio i hanner nos, gallai'r ymgeiswyr wneud cais am amrywio'r drwydded mangre.
- ar yr adegau hynny y maent yn rhagweld nosweithiau prysur pan fydd digwyddiadau arbennig ac ati yn cael eu cynnal, bydd yr ymgeisydd yn cwblhau asesiad risg i weld a oes angen staff diogelwch ar y drws.
- hefyd, rhaid i'r ymgeisydd roi gwybod i'r adran Drwyddedu cyn y bydd yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau arbennig. Gall yr adran Drwyddedu wedyn, os bydd angen, ymgynghori â'r Heddlu.

Byddai'r amodau uchod yn cael eu gosod ar y drwydded fel modd o atal niwsans cyhoeddus.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Trwyddedu (Pwyllgor Anstatudol)

Dyddiad y cyfarfod: 16 Mawrth 2023

Teitl: Adroddiad am Gyfraith Martyn – Y Ddyletswydd Diogelu

Pwrpas yr adroddiad: Er gwybodaeth

Cefndir
Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth fanylion y Ddyletswydd Diogelu, a elwir erbyn hyn yn 'Cyfraith Martyn' er teyrnged i Martyn Hett, a laddwyd ochr yn ochr â 21 o bobl eraill yn yr ymosodiad gan derfysgwyr ar Arena Manceinion yn 2017.

Ers 2017 bu 14 ymosodiad terfysgol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ymosodiadau trychinebus hyn wedi achosi marwolaethau ac anafusion ymhlith pobl sy'n byw eu bywydau bob dydd. Mae nifer o'r ymosodiadau hyn naill ai wedi'u cyflawni mewn eiddo trwyddedig neu wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n mwynhau eu hunain yn yr economi liw nos, e.e. ymosodiad terfysgol Pont Llundain a Marchnad Borough yn 2017.

Mae angen ystyried diogelwch yn well a sicrhau bod mesurau cadarn, cymesur a chyson ar waith mewn mannau cyhoeddus er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu paratoi'n well a gwella diogelwch y cyhoedd, yn wyneb ymosodiadau posib yn y dyfodol.
Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau nad ydy'r ymdrechion diogelwch o safbwynt gwrthderfysgaeth ar ei hôl hi o gymharu â gweithgarwch arall sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Nodir bod anghysondeb ar hyn o bryd o ran y modd y caiff prosesau a mesurau diogelwch eu blaenoriaethu, eu hystyried a'u gweithredu.

Beth fydd Cyfraith Martyn yn ei wneud?
Bwriad Cyfraith Martyn yw cadw pobl yn ddiogel, gwella ein diogelwch cenedlaethol a lleihau'r risg o derfysgaeth i'r cyhoedd drwy ddiogelu ein lleoliadau cyhoeddus.
Bydd y gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am leoliadau penodol i ystyried y bygythiad o derfysgaeth a chymryd camau lliniaru addas a chymesur.

Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod y partïon wedi paratoi, yn barod i ymateb ac yn gwybod beth i wneud pe bai ymosodiad. Bydd diogelwch gwell yn cael ei gyflawni drwy systemau diogelwch gwell, hyfforddiant staff, a phrosesau cliriach.

Pa Safleoedd / Lleoliadau fydd yn cael eu cynnwys?
Gallai'r ddeddfwriaeth fod yn berthnasol mewn tri phrif faes, sef:

- Lleoliadau cyhoeddus (e.e. lleoliadau adloniant a chwaraeon, atyniadau i dwristiaid, canolfannau siopa sydd â chapasiti o 100 o bobl neu fwy),
- Sefydliadau mawr (e.e. cadwyni manwerthu neu adloniant, cadwyni sy'n cyflogi 250 o staff neu fwy sy'n gweithredu mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd),
- Mannau cyhoeddus (e.e. parciau cyhoeddus, traethau, tramwyfeydd, pontydd, sgwariau mewn trefi / dinasoedd ac ardaloedd i gerddwyr). Mae hyn yn cynnwys trefnwyr digwyddiadau sy'n defnyddio'r mannau hyn.

Pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym, disgwylir iddi fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gyfrifol am leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd a ddefnyddir at ddibenion megis adloniant a hamdden, manwerthu, bwyd a diod, amgueddfeydd a galerïau, meysydd chwarae, mannau cyhoeddus yn adeiladau'r llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog (e.e. neuaddau tref), atyniadau i ymwelwyr, digwyddiadau dros dro, mannau addoli, iechyd, ac addysg.

Cynigir y bydd y Ddyletswydd yn berthnasol i'r lleoliadau cymwys sydd naill ai yn: adeilad (gan gynnwys casgliad o adeiladau a ddefnyddir at yr un diben e.e. campws); neu leoliad / digwyddiad (gan gynnwys digwyddiad dros dro) sydd â ffin bendant, sy'n golygu y gellir pennu capasiti ar ei gyfer.

Bydd rhai'n cael eu heithrio o'r Ddyletswydd. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau lle mae rheoliadau diogelwch trafnidiaeth eisoes yn berthnasol; a'r rhai sy'n wag dros gyfnod rhesymol neu sydd ar gau'n barhaol. Ni fydd y rheiny sydd ag arwynebedd llawr mawr ond nifer isel o weithwyr yn gweithio ynddynt (e.e. warysau a chyfleusterau storio), ynghyd â swyddfeydd a lleoliadau preswyl preifat, yn dod o dan y Ddyletswydd.

Sut fydd yn gweithio?

Pan gaiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno bydd yn rhoi dyletswydd ar berchnogion a gweithredwyr lleoliadau penodol i fod yn fwy parod ar gyfer ymosodiad terfysgol a gwella diogelwch rhag ymosodiad o'r fath, a bydd y ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gymryd camau cymesur, yn ddibynnol ar faint a natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yno.

Y nod yw sicrhau bod staff yn barod i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n datblygu, eu bod yn ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn, eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau'n sydyn ac yn gallu cymryd camau a fydd yn achub bywydau. Gallai hyn fod yn rhywbeth mor syml â chloi drysau er mwyn arafu'r ymosodwyr tra eu bod yn tywys staff a chwsmeriaid i allanfeydd eraill. Gallai hefyd alluogi i staff roi triniaeth a allai achub bywydau tra eu bod yn aros i'r gwasanaethau brys gyrraedd.

Mae cymesuredd yn ystyriaeth hollbwysig ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Felly bydd yn sefydlu model â sawl haen a fydd yn gysylltiedig â'r gweithgarwch yn y lleoliad a'i gapasiti:

- Bydd yr **haen safonol** yn arwain at ganlyniadau da o ran parodrwydd. Bydd hi'n ofynnol i ddeiliaid y ddyletswydd gymryd camau syml ond effeithiol i wella diogelwch a pharodrwydd. Bydd hyn yn berthnasol ar gyfer lleoliadau cymwys sydd â chapasiti ar gyfer dros 100 o bobl. Gallai hyn gynnwys bariau, bwytai neu siopau manwerthu mwy o faint.

  Mae'r llywodraeth wedi nodi y bydd angen i leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sydd â chapasiti ar gyfer dros 100 o bobl gymryd camau syml ond effeithiol i wella'u diogelwch a'u parodrwydd. Bydd y camau hynny'n cynnwys cwblhau hyfforddiant am ddim, codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth â staff. Ynghyd â chwblhau cynllun parodrwydd.

Mae'r llywodraeth yn bwriadu rhoi triniaeth arbennig i fannau addoli o dan y ddyletswydd, gan adlewyrchu'r ystod bresennol o gamau lliniaru a gyflawnir ac a ariannir gan y Llywodraeth i'w gwneud yn llai agored i derfysgaeth a throseddau casineb. Bydd pob man addoli'n cael eu rhoi yn haen safonol y Ddyletswydd waeth beth fo'u capasiti, ac eithrio cohort bach ar draws pob ffydd sy'n codi tâl mynediad ar dwristiaid a / neu sy'n hurio'r safle ar gyfer digwyddiadau masnachol mwy.

- Bydd yr **haen uwch** yn gosod gofynion ychwanegol ar leoliadau sydd â chapasiti uwch er mwyn cydnabod y goblygiadau trychinebus posib yn sgil ymosodiad llwyddiannus. Bydd hyn yn berthnasol i leoliadau sydd â chapasiti ar gyfer dros 800 o bobl ar unrhyw adeg. Gallai hyn gynnwys lleoliadau cerddoriaeth fyw, theatrau, a siopau adrannol.

Bydd gofyn i leoliadau o'r fath sy'n hygyrch i'r cyhoedd greu asesiad risg a chynllun diogelwch sy'n 'rhesymol ymarferol'. Bydd hyn yn caniatáu i ddeiliaid y ddyletswydd gydbwyso'r angen i leihau risg yn erbyn yr amser, yr arian a'r ymdrech sydd eu hangen i gyrraedd lefel lwyddiannus o barodrwydd diogelwch – safon gydnabyddedig mewn gweithdrefnau rheoleiddio eraill (gan gynnwys Tân ac Iechyd a Diogelwch).

Beth am y lleoliadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr?

Mae elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn berchen ac yn rhedeg ystod eang o leoliadau (amgueddfeydd, safleoedd yr ymddiriedolaeth genedlaethol, lleoliadau cyhoeddus sylweddol, e.e. y Tŷ Opera Brenhinol a'r Theatr Genedlaethol). Mae rhai sefydliadau hefyd yn hurio safleoedd i eraill at ddibenion amrywiol. Gan na fyddai mwyafrif y lleoliadau sy'n cael eu rhedeg neu eu perchen gan sefydliadau elusennol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn cyrraedd y trothwy capasiti o 800+, mae'r Llywodraeth yn credu bod y gofynion yn gymesur.

A fydd hyn yn effeithio ar hygyrchedd?

Bydd gofynion y ddyletswydd yn amrywio ond i nifer bydd yn cynnwys newid y prosesau a'r systemau diogelwch, a sut caiff staff eu hyfforddi, Felly, mae'n debygol y bydd nifer o'r newidiadau yn sgil y ddyletswydd yn rhai 'yn y cefndir' na fyddai'r cyhoedd yn sylwi arnynt. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, bydd nodweddion diogelwch corfforol yn amlwg i'r cyhoedd, ond ni ddylent fyth gyfaddawdu ar hygyrchedd.

Sut fydd Cyfraith Martyn yn cael ei gorfodi?

I gefnogi'r gyfraith, mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn sefydlu gweithdrefn arolygu a gorfodi, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth a newid cadarnhaol mewn diwylliant gan roi cosbau credadwy a theg. Mae'n ansicr pa ddyletswyddau fydd yn cael eu gosod ar y Tîm Trwyddedu a / neu wasanaethau rheoleiddio eraill hyd nes y caiff y ddeddfwriaeth ddrafft ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Wrth gwrs mae'r Tîm Trwyddedu'n disgwyl derbyn mwy o ymholiadau oddi wrth safleoedd trwyddedig yn gofyn am gyngor ac arweiniad pan fydd y llywodraeth yn rhyddhau rhagor o fanylion.

Argymhelliad / Argymhellion: Dylai'r Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Rheswm dros yr argymhelliad:	Rhoi gwybod i'r Aelodau etholedig ynghylch Cyfraith Martyn a'r ddyletswydd fydd yn ei gosod ar ddeiliaid trwydded cymwys a threfnwyr digwyddiadau, a'r effaith y rhagwelir y caiff ar Wasanaeth Trwyddedu'r Awdurdod.
Fframwaith Polisi:	Mae'r swyddogaethau statudol a gyflawnir gan y Tîm Trwyddedu'n elfen allweddol o fframwaith polisi Diogelu'r Cyhoedd.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb
Maes Gwasanaeth:	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Pwerau Statudol:	Deddf Trwyddedu 2003, Deddf Gamblo 2005 ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Deddfau.
Papurau Cefndir:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)
Swyddog Adrodd:	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Gareth Rees (Uwch Swyddog Trwyddedu)
Dyddiad:	22 Chwefror 2023